

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Modiwl 15 pwynt ac iddo ddau llyn yw *Dysgu i addysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd – LXT193*. Mae'n cyfuno pum uned cyntaf modiwl rhagarweiniol allweddol Lefel 1 *Rundblick: Almaeneg i Ddechreuwr* ag addysgeg ieithoedd mewn ysgolion cynradd. Caiff y modiwl ei lunio a'i gyflwyno mewn partneriaeth rhwng Y Brifysgol Agored yn yr Alban a Chanolfan Ieithoedd Genedlaethol yr Alban.

Bydd y llyn iaith, a addysgir gan un o Ddarlithwyr Cyswllt Y Brifysgol Agored, yn meithrin y sgiliau sydd eu hangen ar fyfyrwr i siarad a deall Almaeneg syml mewn sefyllfaoedd bob dydd, ac mae wedi'i gynllunio i'w galluogi i gyflawni lefel o hyfedredd iaith sy'n cyfateb i lefel A1 Fframwaith Cyfeirio Ieithoedd Ewropeaidd Cyffredin Cyngor Ewrop. Nid oes angen unrhyw ddealltwriaeth flaenorol o Almaeneg. Mae'r adnoddau astudio yn cynnwys llyfrau'r modiwl mewn fformat PDF, recordiadau sain digidol, gwefan benodedig a gweithgareddau ar-lein, y mae pob un ohonynt yn cefnogi dysgu annibynnol. Gyda'i gilydd, byddant yn rhoi ymdeimlad go iawn i'r myfyrwr o ddiwylliannau Ffrangeg eu hiaith, yn ogystal â sgiliau iaith.

Byddwch yn addysgu'r llyn hwn o'r modiwl drwy ddulliau addysgu cyfunol, gan gynnwys cynadleddau cydamseredig, tiwtorialau wyneb yn wyneb a fforymau ar-lein. Bydd y tiwtorialau'n cael eu cynnal ar-lein, gan ddefnyddio system cynadledda clyweledol. Bydd peth tiwtora wyneb yn wyneb hefyd, gan ddbynnu ar y lleoliad daearyddol. Mae'r modiwl hefyd yn defnyddio Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Brifysgol. Mae'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir yn cynnwys cyfuniad o adnoddau rhyngweithiol, gweithgareddau a deunyddiau sain a darllen ychwanegol i gefnogi'r dysgu ac ategu llyfrau'r modiwl. Bydd disgwyl i chi gefnogi a thiwtora myfyrwr ar yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir yn rheolaidd drwy fforwm grŵp tiwtor ar-lein.

Manyleb y person

Dylid darllen y fanyleb person ar gyfer y modiwl hwn ar y cyd â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn Almaeneg neu bwnc perthnasol arall a chymhwysedd siaradwr brodorol neu bron yn frodorol mewn Almaeneg
- profiad helaeth o addysgu Almaeneg, yn ddelfrydol i oedolion
- ymrwymiad i addysgu iaith gyfathrebol
- sensitifrwydd i'r problemau penodol sy'n gysylltiedig ag addysgu a dysgu ieithoedd o bell
- dealltwriaeth eang o wledydd lle siaredir Almaeneg, eu cymdeithasau a'u diwylliannau
- parodrwydd i feithrin ymwybyddiaeth ryngddiwylliannol y myfyrwr
- y gallu i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i addysgu iaith.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o weithio gydag athrawon ysgol neu addysgu mewn ysgolion
- gwybodaeth sylweddol am system addysg yr Alban
- cymhwyster addysgu priodol
- Profiad o addysgu ar lefel dechreuwr.

Gwybodaeth ychwanegol

- Byddai profiad o ddefnyddio ffurfiau electronig ar ddysgu a chymorth o bell yn ddefnyddiol, ond bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu.

- Caiff y tiwtorialau eu cynnal gyda'r hwyr neu ar benwythnosau. Disgwylir i chi fod ar gael i ateb galwadau ffôn neu negeseuon e-bost rhwng tiwtorialau er mwyn helpu'r myfyrwyr gyda'u hanawsterau.
- Caiff aseiniadau eu cyflwyno, eu marcio a'u dychwelyd yn electronig.
- Bydd angen i chi gael mynediad rheolaidd at gyfrifiadur sy'n cydymffurfio â'r manylebau a bennir ar y wefan cyfrifiadura bersonol ar gyfer LXT193.

Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	15
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	1
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	2

Gallai fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano – byddwn yn cysylltu â chi ar wahân os yw hyn yn berthnasol.

